wavehill

Social and economic research

Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

# Llunio Dyfodol Cymru:

## Defnyddio cerrig milltir cenedlaethol i fesur cynnydd ein cenedl (ymgynghoriad ton dau)

## Crynodeb o'r ymatebion

**Hydref 2022**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Wavehill: Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd

Ein swyddfeydd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa gorllewin Lloegr: 2–4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- Swyddfa gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 2.16 Oxford House, 49 Oxford Road, London, N4 3EY

Manylion cyswllt

Ffôn: 0330 122 8658

E-bost: wavehill@wavehill.com

Twitter: @wavehilltweets

Mwy o wybodaeth

www.wavehill.com

https://twitter.com/wavehilltweets

© Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd.

Mae'r adroddiad hwn yn destun hawlfraint. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.

Awduron yr adroddiad

Sam Grunhut

Llorenc O'Prey

Andy Parkinson

Iwan Davies

Dylai unrhyw gwestiynau’n ymwneud â'r adroddiad hwn gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Sam Grunhut (sam.grunhut@wavehill.com)

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ........ 4
1 Cyflwyniad ........ 6
2 Canfyddiadau Cyffredinol ........ 9
3 Disgwyliad Oes Iach ........ 12
4 Ymddygiadau Iach o Ran Ffordd o Fyw ........ 16
5 Lles Meddyliol ........ 20
6 Incwm Aelwydydd ........ 24
7 Tlodi Incwm ........ 28
8 Pobl sy'n Gwirfoddoli ........ 32
9 Perfformiad Ynni Cartrefi ........ 36
10 Amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru ........ 40
11 Cyfathrebu’r Cerrig Milltir Cenedlaethol ........ 43
12 Effeithiau, Cyfleoedd a Dibyniaethau ........ 46
13 Effaith ar y Gymraeg ........ 48
14 Casgliadau ........ 50
Atodiad 1: Cwestiynau Ymgynghori ........ 52
Atodiad 2: Ymatebion Sefydliadol ........ 55

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i ymgynghoriad Llunio Dyfodol Cymru (ton dau). Mae'n cyflwyno crynodeb o farn a safbwyntiau a fynegwyd gan yr ymatebwyr mewn perthynas â’r cerrig milltir cenedlaethol arfaethedig.

## Ymatebion

Rhwng mis Mehefin a mis Medi 2022, derbyniodd yr ymgynghoriad 89 o ymatebion ffurfiol. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion gan ystod amrywiol o unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb yn y cynigion. Mae'r 56 o sefydliadau a fynegodd eu barn yn cynrychioli amrywiaeth o gyrff gwirfoddol, preifat a chyhoeddus sy'n gweithio yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys grwpiau eiriolaeth, hyd at gyrff cyhoeddus sy'n gweithio ar draws iechyd, addysg a llywodraeth leol.

## Canfyddiadau Allweddol

Yn gyffredinol, cafodd pob carreg filltir genedlaethol dderbyniad cadarnhaol gan yr ymatebwyr. Mae hyn yn awgrymu bod cefnogaeth gyffredinol i amcanion y cynigion a'r blaenoriaethau y maent yn ceisio eu datblygu.

Cynigiodd yr ymatebwyr ystod o sylwadau ac awgrymiadau yn ymwneud â dangosyddion llesiant cenedlaethol a cherrig milltir cenedlaethol penodol. Roedd y rhain yn cynnwys sut y gellid eu cryfhau. Roeddent yn amrywio o sylwadau ar ffocws carreg filltir genedlaethol benodol i ymholiadau ynghylch sut y cânt eu diffinio a'u mesur. At hynny, cafwyd sylwadau mwy cyffredinol ar y materion sy'n wynebu Cymru fel cenedl y mae'r cerrig milltir cenedlaethol yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Ymdrinnir â'r sylwadau a'r awgrymiadau penodol yn fanylach yn y penodau perthnasol trwy gydol yr adroddiad.

Roedd sawl thema gyffredinol yn natur y sylwadau a'r awgrymiadau a fynegwyd gan ymatebwyr. Roedd y rhain yn cynnwys archwilio targedau interim ac, mewn rhai achosion, eirioli dros derfynau amser mwy uchelgeisiol. Roedd rhai ymatebwyr eisiau gweld targedau mwy penodol a mesuradwy.

Thema gyffredin arall a gododd ar draws yr ymatebion oedd pwysigrwydd a photensial y cerrig milltir cenedlaethol i hybu mwy o gydraddoldeb yng Nghymru. Teimlai rhai y gellid cryfhau'r cerrig milltir cenedlaethol drwy gynnwys metrigau mwy manwl gywir sy'n amlygu'r ystod o anghydraddoldebau y gallai pobl a chymunedau fod yn eu profi.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi amcanion trosfwaol y cerrig milltir cenedlaethol arfaethedig, ac roedd y sylwadau a'r awgrymiadau yn canolbwyntio ar gryfhau ac ymestyn y cynigion presennol.

## Llywio'r Ddogfen Hon

Wrth gyfleu canfyddiadau'r dadansoddiad, mae'r adroddiad hwn yn dilyn strwythur cyffredinol y ddogfen ymgynghori ei hun. Caiff barn yr ymatebwyr ei dadansoddi'n fanwl ar sail pob maes sylweddol oddi mewn i benodau unigol drwy gydol yr adroddiad. Mae crynodeb cyffredinol, trosfwaol yn cael ei ddarparu yn y Casgliadau.

# 1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i ymgynghoriad Llunio Dyfodol Cymru. Mae'n cyflwyno crynodeb o farn a safbwyntiau a gynigwyd gan yr ymatebwyr mewn perthynas â’r cerrig milltir cenedlaethol arfaethedig.

## 1.1 Cefndir

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn gyfreithiol ofynnol i gyrff cyhoeddus fynd ar drywydd llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol hirdymor Cymru. Roedd y Ddeddf yn golygu mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu ar gyfer llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Fel ag yr oedd ym mis Rhagfyr 2021, roedd hanner cant o ddangosyddion llesiant cenedlaethol sy'n helpu i ddeall y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at y nodau llesiant yn y Ddeddf.

Mewn cydweithrediad ag amrywiaeth o randdeiliaid, aeth Llywodraeth Cymru ati i ddatblygu cerrig milltir cenedlaethol a fyddai'n gweithredu fel targedau wedi’u gosod yn erbyn y dangosyddion llesiant cenedlaethol. Mae’r cerrig milltir cenedlaethol yn gyfres o fesurau yn erbyn y dangosyddion llesiant cenedlaethol sy'n nodi disgwyliadau o ran yr hyn y dylai'r dangosyddion llesiant cenedlaethol ei ddangos yn y dyfodol.

Cafodd y cerrig milltir cenedlaethol cyntaf ar gyfer Cymru eu gosod yn 2021 yn dilyn ymgynghoriad cyntaf Llunio Dyfodol Cymru. Datblygwyd yr ail don o gerrig milltir cenedlaethol yn 2022 mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, a'r ail ymgynghoriad hwn yw cam olaf y gwaith hwnnw cyn iddynt gael eu cyflwyno yn y Senedd erbyn diwedd y flwyddyn.

## 1.2 Ymatebion

Rhwng mis Mehefin a mis Medi 2022, derbyniodd yr ymgynghoriad 89 o ymatebion ffurfiol gan ystod amrywiol o aelodau unigol o'r cyhoedd a sefydliadau sydd â diddordeb yn y cynigion. Gyda'i gilydd, derbyniwyd 37 y cant o ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd, 24 y cant gan sefydliadau’r sector cyhoeddus, 17 y cant gan sefydliadau'r trydydd sector, a saith y cant gan y sector preifat. Nid oedd 14 y cant arall o'r ymatebwyr wedi darparu gwybodaeth broffil.

**Tabl 1: Proffil yr Ymatebwyr**

| Grŵp Rhanddeiliaid | Nifer yr Ymatebion | Canran o Gyfanswm yr Ymatebion |
|---|---|---|
| Sector Cyhoeddus: | 21 | 24% |
| *Awdurdodau Lleol* | *6* | *7%* |
| *Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru* | | *8%* |
| *Byrddau Iechyd* | *3* | *3%* |
| *Eraill yn y Sector Cyhoeddus* | *7* | *8%* |
| Trydydd Sector | 15 | 17% |
| Sector Preifat | 6 | 7% |
| Aelodau Unigol o'r Cyhoedd | 33 | 37% |
| Ddim yn hysbys | 14 | 16% |

Mae'r 56 o sefydliadau a fynegodd eu barn yn cynrychioli amrywiaeth eang o gyrff gwirfoddol, preifat a chyhoeddus. Roedd y rhain yn cynnwys llywodraeth leol, cyrff cyhoeddus, a grwpiau eiriolaeth. I gael rhestr lawn o'r sefydliadau a gyfrannodd at yr ymgynghoriad, gweler Atodiad 2.

## 1.3 Dull Dadansoddol

Ym mis Medi 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru sefydliad ymchwil annibynnol Wavehill, i gynnal dadansoddiad o'r ymatebion.

Roedd y cwestiynau a ofynnwyd i'r ymatebwyr ynghylch pob un o'r cerrig milltir yn gyntaf yn gofyn am ateb 'ydw' neu 'nac ydw' ynghylch a oeddent yn gefnogol i'r garreg filltir genedlaethol ai peidio. Wedi hynny, gofynnwyd cwestiwn testun agored iddynt ynghylch a hoffent weld unrhyw newidiadau pe gwnaethant ateb eu bod yn cytuno. Pe byddent wedi nodi nad oeddent yn cytuno â'r cynnig, yn hytrach gofynnwyd iddynt argymell carreg filltir genedlaethol fwy addas.

Yn ogystal â'r cwestiynau a oedd yn casglu adborth ar bob un o'r cerrig milltir cenedlaethol arfaethedig, roedd y papur ymgynghori hefyd yn gofyn cwestiynau testun agored i gasglu adborth ar: y ffordd orau i gyfathrebu â phobl a chymunedau Cymru ynghylch y cerrig milltir cenedlaethol, ac a allai’r ymatebwyr nodi unrhyw effeithiau a chyfleoedd posibl o gyflawni'r holl gerrig milltir cenedlaethol, ac yn enwedig unrhyw ddibyniaethau rhyngddynt.

I gloi’r ymgynghoriad gofynnwyd cwestiynau testun agored ynghylch a oedd ymatebwyr yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael effaith ar y Gymraeg, ac a oeddent o'r farn y gellid eu llunio neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg neu sicrhau nad oeddent yn cael unrhyw effeithiau andwyol.

Mae’r cwestiynau penodol a ofynnwyd i'r ymatebwyr i’w gweld yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Er mwyn dadansoddi'r safbwyntiau a fynegwyd gan yr ymatebwyr, mae awduron yr adroddiad hwn wedi cynnal dadansoddiad thematig manwl. Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, mae'r tîm wedi amlygu themâu a materion penodol a godwyd ac maent wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Yn ogystal, edrychodd y tîm am adborth a ddarparwyd gan randdeiliaid y mae eu rôl a'u maes diddordeb yn cyd-fynd yn agos â phob un o’r cerrig milltir cenedlaethol arfaethedig. Diben hyn yw cyflwyno sut mae'r sefydliadau hynny wedi ymateb fel y gall darllenwyr fod yn ymwybodol o'u barn hwy yn benodol ar y cerrig milltir cenedlaethol arfaethedig.

## 1.4 Cyfyngiadau

Mae cyfyngiadau ynghylch y dadansoddiad hwn sy'n bwysig i'w nodi. Oherwydd maint sampl cymharol fach yr ymatebwyr, efallai na fydd y farn a’r safbwyntiau o reidrwydd yn cynrychioli'n llawn y gymuned ehangach sydd â diddordeb yn y cynigion.

Yn ogystal, ni wnaeth yr holl ymatebwyr ddarparu barn ar bob cwestiwn y tu hwnt i deimlad cyffredinol.


**Felly, dylid ystyried mai rhoi awgrym o’r farn a wna’r dadansoddiad hwn, yn hytrach na rhoi cyfrif diffiniol o farn yr holl bobl a’r holl sefydliadau ledled Cymru.**

# 2 Canfyddiadau Cyffredinol

## Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ymatebwyr yn ymwneud â phob carreg filltir genedlaethol unigol a amlinellir yn y cynigion. Mae'r dadansoddiad wedi canfod bod yr ymatebwyr yn cynnig cefnogaeth helaeth ar draws yr holl gerrig milltir cenedlaethol.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno â chyfres o gerrig milltir cenedlaethol penodol. Ar draws yr holl gerrig milltir cenedlaethol, roedd 76.5 y cant ar gyfartaledd yn cytuno â'r cynigion (yn amrywio o 83 y cant yn cytuno i 63 y cant yn cytuno). Y garreg filltir genedlaethol arfaethedig ar wirfoddoli a welodd y ganran uchaf yn anghytuno â hi, sef 38 y cant. Yn gyffredinol, mae hyn yn awgrymu cefnogaeth eang i werthoedd yr holl gerrig milltir cenedlaethol a gynigir yn yr ymgynghoriad.


**Ffigur 1: Cytundeb â'r cerrig milltir**



Roedd y gefnogaeth eang i'r cynigion, yn ogystal â chael ei mynegi drwy ymatebion ynghylch a ydynt yn cytuno â'r cerrig milltir cenedlaethol ai peidio, hefyd yn cael ei hadlewyrchu yn yr adborth ansoddol a ddarparwyd gan ymatebwyr. Cafodd hyn ei gasglu drwy gwestiynau dilynol lle cynigiwyd cyfleoedd i'r ymatebwyr ymhelaethu ar eu safbwyntiau ynghylch cerrig milltir cenedlaethol a dangosyddion llesiant cenedlaethol penodol. Roedd dadansoddiad o deimladau yn yr ymatebion agored hyn (gwybodaeth ansoddol), a oedd yn archwilio canfyddiadau a theimladau cyffredinol a fynegwyd mewn testun agored, hefyd yn dangos cefnogaeth helaeth i'r cynigion.

Yn gyffredinol, o fewn ymatebion agored, roedd 33.8 y cant o'r ymatebwyr ar gyfartaledd yn cynnig cefnogaeth ddiamod i'r cynigion. Roedd 28.3 y cant arall yn cynnig cefnogaeth amodol, lle'r oedd yr ymatebwyr yn nodi meysydd lle gellid cryfhau'r cynigion. Ar y llaw arall, roedd 19.1 y cant ar gyfartaledd yn mynegi teimladau negyddol tuag at elfennau o'r cynigion. Ni wnaeth pob ymatebydd gynnig barn o fewn ac ar draws cwestiynau, gyda chyfartaledd o 18.6 y cant ar draws pob cwestiwn agored.
Roedd ychydig o amrywiaeth yn y teimladau a fynegwyd gan ymatebwyr ar draws gwahanol agweddau ar y cynigion. Caiff hyn ei amlygu yn Ffigur 2 isod:

**Ffigwr 2: Cytundeb â'r cerrig milltir a awgrymir (gan gynnwys cytundeb amodol) (N = 89)**



Ceir amlinelliad manylach isod o ddadansoddiad o'r ymatebion yn erbyn pob carreg filltir genedlaethol. Ymdrinnir â’r themâu allweddol cyffredin a gwyd gan ymatebwyr yn eu tro, a chaiff materion llai cyffredin eu trafod ar ddiwedd pob adran.

# 3 Disgwyliad Oes Iach

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ar y garreg filltir genedlaethol arfaethedig a osodwyd yn erbyn dangosydd llesiant cenedlaethol Rhif 2 — 'Cynyddu disgwyliad oes iach oedolion a lleihau'r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig o leiaf 15% erbyn 2050'.


| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Rhif 2: Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf difreintiedig** | | | • | • | | | |
| **Carreg Filltir #1** | Cynyddu disgwyliad oes iach oedolion a lleihau'r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig o leiaf 15% erbyn 2050 | | | | | | |

Mae'r garreg filltir genedlaethol yn adlewyrchu pwysigrwydd gwella disgwyliad oes iach cyfartalog y boblogaeth gyfan, yn ogystal â mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran disgwyliad oes iach. Mae disgwyliad oes iach yng Nghymru bellach yn ddisymud gydag ychydig iawn o newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn yr un modd, nid yw anghydraddoldebau mewn disgwyliad oes iach rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig wedi lleihau.

## 3.1 Canfyddiadau Cyffredinol

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth gref i ffocws a bwriad y garreg filltir genedlaethol sy'n ymwneud â disgwyliad oes iach, gyda 83 y cant o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn cymeradwyo'r dull gweithredu.

**Ffigur 3: Canfyddiadau cyffredinol o garreg filltir genedlaethol 1**




C1: N = 75, nifer heb ymateb N = 14.

Mewn ymatebion agored, roedd 38 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno'n llwyr. Roedd 30 y cant arall yn cynnig cefnogaeth amodol, gan gynnig awgrymiadau ar sut y gellid cryfhau'r garreg filltir genedlaethol.

## 3.2 Themâu Allweddol

### Lleihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd

Gan gydnabod natur gymhleth anghydraddoldebau iechyd, awgrymodd 13 o ymatebwyr y gallai'r garreg filltir genedlaethol arfaethedig fynd ymhellach neu fod â mwy o frys. Teimlai'r ymatebion hyn fod mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn gofyn am ffocws ehangach, gan gynnwys ar anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd a all lunio a phennu canlyniadau iechyd a llesiant. Teimlwyd y dylai'r garreg filltir genedlaethol ystyried y ffactorau hyn wrth gefnogi camau gweithredu ar anghydraddoldebau iechyd.

*“Rydym yn awgrymu bod angen mwy o frys i gau'r bwlch hwn na'r hyn sy'n cael ei gynnig drwy'r ymgynghoriad hwn, o ystyried y lefelau cynyddol o dlodi plant sydd i’w gweld ar draws pob rhan o Gymru, wedi'u gwaethygu gan bwysau costau byw a'r dirwasgiad economaidd sydd ar ddod.”*

(Plant yng Nghymru)

### Manwl gywirdeb a nodweddion gwarchodedig

Awgrymodd wyth o ymatebwyr y byddai dealltwriaeth fanwl o faint anghydraddoldebau iechyd ymhlith gwahanol bobl ledled Cymru yn werthfawr er mwyn arwain ymatebion effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio, os yn bosibl, wybodaeth a allai helpu i oleuo graddau anghydraddoldebau iechyd y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

> *"Pe gallai'r data gasglu sut mae disgwyliad oes iach yn amrywio ar draws gwahanol grwpiau demograffig, er enghraifft, rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl a rhwng cymunedau gwyn a lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn yn allweddol i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n gweithredu ar bob math o anghydraddoldebau sy'n bodoli yng Nghymru. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod adnoddau a chyllid yn cael eu dyrannu'n deg a bod camau gweithredu'n cael eu targedu yn y modd mwyaf priodol."*
>
> (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall)

### Pwysigrwydd codi disgwyliad oes i bawb

Amlygodd saith o ymatebwyr bwysigrwydd y garreg filltir genedlaethol o ran gweithio tuag at wella disgwyliad oes iach i bawb. Teimlai pedwar fod y ffocws ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn werthfawr ac yn angenrheidiol; fodd bynnag, roedd yn bwysig peidio â cholli golwg ar gamau gweithredu a allai wella disgwyliad oes iach yn gyffredinol. Wrth gefnogi'r dull hwn, roedd yr ymatebwyr yn argymell monitro'n agos a chyfathrebu disgwyliad oes iach oedolion ochr yn ochr ag anghydraddoldebau iechyd.

> *"Fel yn achos cerrig milltir tebyg sy'n canolbwyntio ar gau bylchau, byddem yn tynnu sylw at y ffaith bod modd cau bylchau fel hyn oherwydd newidiadau negyddol. Gallai dirywiad mewn disgwyliad oes ymhlith y lleiaf difreintiedig awgrymu bod y bwlch yn cau pan nad yw disgwyliad oes y rhai mwyaf difreintiedig wedi newid. Mae'n bwysig bod naratif clir yn cyd-fynd â chyhoeddi data."*
>
> (Chwarae Teg)

## 3.3 Ymatebion Rhanddeiliaid Allweddol

Roedd llawer o randdeiliaid allweddol yn cefnogi'r garreg filltir genedlaethol, gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (a oedd yn cytuno â'r dull a amlinellir yn y cynigion). Awgrymodd y ddau y gallai'r targed o 15 y cant fod yn fwy uchelgeisiol wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn disgwyliad oes iach erbyn 2050, ac y byddai targedau canolradd yn werthfawr wrth ysgogi camau gweithredu.

*“Byddem yn cefnogi camau i godi disgwyliad oes iach i bawb gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Mae'r bwlch sylweddol mewn disgwyliad oes iach rhwng cymunedau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd yn her iechyd cyhoeddus fawr sy'n haeddu ymdrech gydlynol ar y cyd dros y tymor hir. Fodd bynnag, mae'r targed hwn yn haeddu targedau canolraddol er mwyn asesu cynnydd, ac mae wedi'i osod yn rhy bell yn y dyfodol, ac mae angen polisïau a chamau gweithredu a fyddai'n cyflawni'r newid hwn.”*

(Iechyd Cyhoeddus Cymru)

At hynny, cytunodd y ddau y dylid ystyried sut y gallai'r garreg filltir genedlaethol gynorthwyo camau gweithredu ar lawr gwlad. Amlygodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, er enghraifft, y byddai'n werthfawr darparu dadansoddiadau o ddisgwyliad oes iach yn ôl daearyddiaeth ac yn ôl nodweddion gwarchodedig.

# 4 Ymddygiadau Iach o Ran Ffordd o Fyw

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ar y garreg filltir genedlaethol arfaethedig a osodwyd yn erbyn dangosydd llesiant cenedlaethol Rhif 3 — 'cynyddu cyfran yr oedolion sydd â dau neu fwy o ymddygiadau iach o ran eu ffordd o fyw i fwy na 97 y cant erbyn 2050'.

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Rhif 3 - Canran yr oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw** | | | ● | ● | ● | ● | |


| | |
|---|---|
| **Carreg Filltir #2** | Cynyddu canran yr oedolion sydd â dau neu fwy o ymddygiadau iach o ran eu ffordd o fyw i fwy na 97% erbyn 2050. |

Bwriad y garreg filltir genedlaethol hon oedd ategu carreg filltir genedlaethol ton un sy'n canolbwyntio ar ymddygiadau iach ymhlith plant yng Nghymru. Gyda'i gilydd, bydd y cerrig milltir cenedlaethol hyn yn cyflawni un o ddibenion sylfaenol y Ddeddf, h.y. diogelu iechyd a llesiant pobl Cymru. Drwy hyrwyddo'r arfer o fabwysiadu dau neu fwy o ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw, rhagwelir y bydd hyn yn sicrhau y bydd gan bawb yng Nghymru fywydau hirach, iachach a hapusach.

## 4.1 Canfyddiadau Cyffredinol

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth aruthrol i gynnwys y garreg filltir, gyda 78 y cant o'r ymatebwyr yn lleisio cefnogaeth iddi.

**Ffigur 4: Canfyddiadau cyffredinol o garreg filltir genedlaethol 2**




C2: N = 72, nifer heb ymateb N = 17.

Mewn ymatebion mwy agored, cynigiodd 30 y cant o'r ymatebwyr gefnogaeth ddiamwys i'r cynigion. Roedd 33 y cant arall o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol ac yn cynnig awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r garreg filltir genedlaethol.

## 4.2 Themâu Allweddol

### Mwy o uchelgais

Thema allweddol a godwyd gan ymatebwyr oedd pwysigrwydd hyrwyddo ymddygiadau iach a mynd i'r afael â materion fel anweithgarwch. Teimlai wyth o'r ymatebwyr y dylai'r garreg filltir genedlaethol fod yn fwy uchelgeisiol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys cynyddu nifer yr ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw y disgwylir i oedolion feddu arnynt, yn ogystal â byrhau'r amserlen.

> *"Credwn fod gosod carreg filltir ar gyfer 2050 yn amserlen rhy hir ar gyfer y dangosydd hwn. Gan mai 93 y cant yw'r data diweddaraf ar gyfer Cymru,* [...] *nid yw cynnydd o bedwar y cant dros 28 mlynedd yn ddigon ymestynnol. Roedd y garreg filltir i asesu ymddygiad iach ymhlith plant yn cynnwys carreg filltir ar gyfer 2035 a byddai hyn ar ei ennill o wneud hyn ar gyfer dangosydd yr oedolion. Rydym hefyd yn credu nad yw dau neu fwy o ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw yn gosod uchelgais digonol, o ystyried pwysigrwydd ymddygiadau iach, ac y dylid ystyried cynyddu nifer yr ymddygiadau yn y garreg filltir."*
>
> (Cyngor Sir Fynwy)

## Egluro ymddygiadau iach

Teimlai rhai hefyd y byddai'n werthfawr cynnwys rhagor o wybodaeth am sut y gellid deall a mesur ymddygiad iach. Nododd chwe ymatebydd y gallai'r geiriad ynghylch rhai o'r 'ymddygiadau iach' a nodwyd gael ei ddehongli mewn ffyrdd gwahanol. Gofynnodd un ymatebydd, er enghraifft, am eglurhad ynghylch a allai ysmygu e-sigaréts gael ei ystyried fel peidio ag ysmygu. Yn fwy na hynny, cafwyd trafodaeth ynghylch defnyddio mesurau goddrychol o weithgarwch corfforol wrth ddeall ymddygiadau iach. Gyda'i gilydd, roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol ystyried ac egluro sut yn union y byddai ymddygiadau iach yn cael eu deall a'u mesur.

> *"Rydym yn cytuno â'r garreg filltir ond yn cwestiynu rhai o'r 'ffyrdd iach o fyw' sy'n ymwneud â chyfrifo'r canlyniadau, h.y.* [a ddylid] *cynnwys defnyddwyr e-sigaréts yn ogystal ag ysmygu (ddim yn siŵr a yw wedi'i brofi bod hyn yn dda neu'n ddrwg i'r iechyd), hefyd* [cwestiynu] *a yw BMI yn fesur da o bwysau iach."*
>
> (Aelod o'r cyhoedd)

## Gwaredu rhwystrau i ymddygiadau iach

Thema gyffredin arall oedd pwysigrwydd mynd i'r afael â rhwystrau i ymddygiadau iach, e.e. pa mor fforddiadwy yw opsiynau bwyd iachach, a grybwyllwyd gan bump o'r ymatebwyr.

Cydnabuwyd hefyd, i rai unigolion, bod cyflawni ymddygiadau penodol ychydig yn haws na chyflawni eraill. Byddai rhywun sy'n cael trafferth gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau, er enghraifft, yn debygol o'i chael yn haws i fod yn fwy egnïol ond gallai gael trafferth rhoi'r gorau i ysmygu neu leihau faint o alcohol y mae'n ei yfed. Felly, byddai angen i ymatebion i'r garreg filltir genedlaethol ystyried sut i olrhain a deall newid ystyrlon yn ymddygiadau pobl.

> *"Mae 86 y cant o oedolion yn dweud nad ydynt yn ysmygu, a dim ond 31 y cant o oedolion a ddywedodd eu bod wedi bwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau ar y diwrnod blaenorol. O ystyried y gwahaniaethau hyn, gallai cyfuno'r ymddygiadau iach hyn (ac eraill) mewn un mesur guddio newidiadau ystyrlon, gan gyfyngu ar werth y garreg filltir yn ei dro."*
>
> (Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol)

## Awgrymiadau ychwanegol

Roedd awgrymiadau eraill ar gyfer y garreg filltir genedlaethol hon yn cynnwys pwysigrwydd hyrwyddo ymddygiadau iach i rai o oedran ysgol. Teimlwyd bod manteision sylweddol i hyn o ran cynorthwyo plant i sefydlu ymddygiadau iach sy'n

aros gyda nhw pan fyddant yn oedolion. Ystyriaeth arall oedd unigolion a allai wynebu rhwystrau ychwanegol i gyflawni'r ymddygiadau iach hyn, gan gynnwys rhai unigolion ag anableddau, rhai sy'n byw mewn tlodi, a'r rhai sy'n dioddef o broblemau camddefnyddio sylweddau, er enghraifft. Teimlai rhai y byddai'n werthfawr ystyried y rhai sydd â rhwystrau a sut y gellid eu cefnogi'n effeithiol.

## 4.3 Ymatebion Rhanddeiliaid Allweddol

Roedd y rhanddeiliaid allweddol o ran y garreg filltir hon yn cynnwys Chwaraeon Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd cefnogaeth i dargedau mwy uchelgeisiol yn ymwneud â hyrwyddo ymddygiadau iach. Roedd Chwaraeon Cymru a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, er enghraifft, yn teimlo mai'r targed ddylai fod anelu at bedwar neu fwy o'r pum ffordd iach o fyw. Yn ogystal, nododd Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru y gellid cryfhau'r garreg filltir drwy gynnwys targedau canolradd er mwyn cefnogi cynnydd.

> *"Mae'r Bwrdd Iechyd yn cytuno mewn egwyddor â gosod carreg filltir ynghylch ymddygiadau iach, ond roeddem yn meddwl tybed a ellid gosod carreg filltir fwy uchelgeisiol ynghylch cyflawni pedair neu fwy o ffyrdd iach o fyw (yn hytrach na dwy)."*
>
> (Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr)

# 5 Lles Meddyliol

## Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ar y garreg filltir genedlaethol arfaethedig a osodwyd yn erbyn dangosydd llesiant cenedlaethol Rhif 29 — 'Gwella lles meddyliol cymedrig oedolion a phlant a dileu'r bwlch yn lles meddyliol cymedrig oedolion a phlant rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru erbyn 2050'.


| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Rhif 29: Sgôr lles meddyliol cymedrig** | | | | • | • | | | |
| **Carreg Filltir #3** | Gwella lles meddyliol cymedrig oedolion a phlant a dileu'r bwlch yn lles meddyliol cymedrig oedolion a phlant rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru erbyn 2050. | | | | | | | |

Mae'r garreg filltir genedlaethol hon yn ceisio gwella llesiant meddyliol cyffredinol wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Caiff ei gydnabod y gall y garreg filltir genedlaethol hon gael ei dylanwadu gan ffactorau allanol a allai effeithio ar les (e.e. y rhyfel yn Wcráin a'r argyfwng costau byw). Oherwydd y ffactorau hyn, nid oedd y cynigion yn cyflwyno targed mesuradwy. Yn hytrach, roedd y garreg filltir yn canolbwyntio ar ddileu anghydraddoldebau mewn sgoriau lles meddyliol ar draws cymunedau yng Nghymru.

## 5.1 Canfyddiadau Cyffredinol

Unwaith eto, roedd cefnogaeth gref i'r garreg filltir genedlaethol arfaethedig, gyda 77 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig.

**Ffigur 5: Canfyddiadau cyffredinol o garreg filltir genedlaethol 3**




C3: N = 77, nifer heb ymateb N = 12.

Mewn ymatebion mwy agored, roedd 35 y cant yn cytuno’n llwyr â'r cynigion. Roedd 31 y cant arall yn cynnig sylwadau ychwanegol.

## 5.2 Themâu Allweddol

### Pwysigrwydd lles meddyliol

Amlygodd llawer o'r ymatebion bwysigrwydd cefnogi lles meddyliol, gydag 11 o ymatebwyr yn nodi amrywiaeth o bryderon ynghylch lles meddyliol gwael. Teimlwyd bod angen ffocws a sylw sylweddol ar bwysigrwydd lles meddyliol ac, felly, bod angen targedau mwy penodol.

*“Credwn y dylid gosod targed mwy pendant, yn hytrach na 'dileu' y bwlch yn y sgoriau lles meddyliol cymedrig rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig.”*

(Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)

### Gwerthfawrogi COVID-19

Amlygodd rhai ymatebwyr fod cynnydd tuag at y garreg filltir genedlaethol hon yn arbennig o bwysig, o ystyried yr effaith ar iechyd meddwl a achoswyd gan COVID-19. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cydnabod bod sgoriau iechyd meddwl a lles meddyliol yn debygol o fod yn is a bod angen ystyried hyn wrth fesur cynnydd yn erbyn y garreg filltir genedlaethol.

*“Mae'r pryderon ynghylch yr effaith a gafodd* [COVID-19] *a'r effeithiau tymor hwy posibl — yn enwedig ymhlith pobl ifanc — yn cael eu hadleisio. Mae'n ymddangos bod ailosod y llinell sylfaen a chwilio am welliant yn strategaeth briodol.”*

(Aelod o'r cyhoedd)

### Targedau ar gyfer lles pobl ifanc

Roedd lles meddyliol pobl ifanc yn faes pryder allweddol i 11 o ymatebwyr. Nodwyd y bydd addysgu plant a phobl ifanc sut i ymdrin â'u hiechyd meddwl yn caniatáu iddynt gefnogi cenedlaethau'r dyfodol wrth wneud hynny.

> *“Mae cysylltiad uniongyrchol ac eglur rhwng iechyd meddwl rhieni a'u plant. Rhaid rhoi cyfrif am y ddibyniaeth hon wrth lunio'r darlun mwyaf cywir o lesiant teuluoedd ledled Cymru. Caiff ei gydnabod yn eang bod y camau datblygu mwyaf hanfodol sy'n pennu datblygiad a lles meddyliol plant yn y dyfodol yn digwydd yn ystod y 1,000 o ddiwrnodau cyntaf ym mywyd plentyn. Bydd defnyddio'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn unig yn golygu na chaiff plant* [o dan] *oedran* [disgyblion] *blwyddyn chwech eu cynnwys yn y garreg filltir hon, sy'n golygu na ellir cael darlun o les meddyliol plant ifanc yng Nghymru.”*

(Aelod o'r cyhoedd)

### Awgrymiadau ychwanegol

Awgrymwyd, fel rhan o'r garreg filltir genedlaethol hon, y dylid canolbwyntio ar wella lles y grwpiau hynny sydd wedi cael eu heffeithio’n fwyaf niweidiol gan y pandemig, e.e. pobl hŷn. Roedd ymatebwyr eraill yn cefnogi'r garreg filltir genedlaethol ond roeddent am gael mwy o eglurder ynghylch sut y bydd y data'n cael ei gasglu a'i feincnodi yn erbyn data blynyddoedd blaenorol.

## 5.3 Ymatebion Rhanddeiliaid Allweddol

Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â'r dangosydd cenedlaethol, gwnaeth rhai rhanddeiliaid allweddol gynnig awgrymiadau neu bryderon. Roedd yr NSPCC, er enghraifft, yn teimlo ei bod yn bwysig ystyried lles meddyliol plant iau, gan gynnwys y rhai o dan 11 oed. Mae ffocws y sgôr llesiant meddyliol cymedrig wedi'i anelu at bobl ifanc 11-16 oed. Maent yn credu y dylid ystyried plant iau hefyd oherwydd effeithiau'r pandemig a'r argyfwng costau byw presennol. Mae'r NSPCC hefyd yn awgrymu y gellid ehangu'r garreg filltir genedlaethol i ystyried profiadau byw o lesiant plant. Mynegwyd y pryderon hyn hefyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, a oedd yn eirioli dros garreg filltir genedlaethol ar wahân sy'n canolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc. Roeddent yn pryderu am gynnydd mewn symptomau iselder trwy’r glasoed ac ymhlith oedolion ifanc.

*“Mae NSPCC Cymru yn pryderu mai drwy ddata'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn unig y gall dangosydd Rhif 29 fesur sgôr cymedrig llesiant meddyliol plant* [11-16] *oed. Dylai'r dangosydd hwn hefyd ystyried iechyd meddwl a lles babanod a phlant ifanc. Hoffem awgrymu dangosyddion cyflenwol fel mesur ymlyniad rhieni yn ystod beichiogrwydd yn ogystal â datblygiad cymdeithasol ac emosiynol babanod. Er nad oes mesur safonol yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru ar gyfer llesiant babanod ar hyn o bryd, mae llawer o offer ar gael y gellid eu defnyddio i fesur hyn. Er enghraifft, mae Mothers Object Relations Scales (MORS) yn offer hawdd eu defnyddio sydd wedi'u dilysu ac maent ar gael am ddim i ymarferwyr iechyd ac ymchwilwyr.”*

(NSPCC Cymru)

# 6 Incwm Aelwydydd

## Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ar y garreg filltir genedlaethol arfaethedig a osodwyd yn erbyn dangosydd llesiant cenedlaethol Rhif 10 — 'Gwella Incwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI), y pen, yng Nghymru erbyn 2035 ac ymrwymo i osod targed twf ymestynnol ar gyfer 2050'.


| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Cenedlaethol 10: Incwm Gwario Gros Aelwydydd, y pen** | | • | | • | • | | | |
| **Carreg Filltir #4** | Gwella Incwm Gwario Gros Aelwydydd, y pen, yng Nghymru erbyn 2035 ac ymrwymo i osod targed twf ymestynnol ar gyfer 2050 | | | | | | | |

Mae'r garreg filltir genedlaethol hon wedi'i chysylltu'n agos â chenhadaeth economaidd Cymru, sy'n nodi gweledigaeth o'r hyn sy'n gwneud Cymru yn lle deniadol i fyw, astudio, gweithio a buddsoddi ynddo. Mae gallu Llywodraeth Cymru i gyfrannu at y garreg filltir genedlaethol hon wedi'i gyfyngu gan ei diffyg rheolaeth dros y system dreth a lles, yn ogystal â thros gyflogau'r sector preifat.

## 6.1 Canfyddiadau Cyffredinol

Unwaith eto, roedd cefnogaeth ysgubol i fwriad a ffocws y garreg filltir genedlaethol. Roedd cyfanswm o 76 y cant o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol.

**Ffigur 6: Canfyddiadau cyffredinol o garreg filltir genedlaethol 4**




C4: N = 72, nifer heb ymateb N = 17.

Mewn ymatebion mwy agored, roedd 39 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno’n ddiamod â'r cynigion. Roedd 22 y cant arall yn cynnig rhagor o sylwadau neu awgrymiadau.

# 6.2 Themâu Allweddol

## Darparu swyddi sy'n talu'n dda

Mynegodd pedwar ymatebydd fod y garreg filltir genedlaethol yn dibynnu i raddau helaeth ar ddarparu cyfleoedd gwaith sy'n talu'n dda. Fel yr amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori, teimlai'r ymatebwyr fod hyn y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru i raddau helaeth. Awgrymodd rhai y gallai'r garreg filltir genedlaethol ystyried enillion cyfartalog fel rhan o'r mesur hwn.

## System dreth a budd-daliadau decach

Er nad oedd yn awgrym ynghylch y garreg filltir na'r dangosydd ei hun, soniodd pump o'r ymatebwyr y byddai system dreth a budd-daliadau decach yn helpu Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'r cynnydd tuag at y garreg filltir genedlaethol hon. Galwodd rhai ymatebwyr am fwy o gefnogaeth i'r rhai sydd â'r GDHI isaf ar hyn o bryd, a fyddai, yn eu barn hwy, yn elwa fwyaf o'r gefnogaeth. Yn y cyfamser, galwodd eraill ar Lywodraeth Cymru i archwilio sut mae treth a budd-daliadau’n cael eu mesur ar hyn o bryd, gan werthfawrogi bod llawer o’r pŵer mewn perthynas â hyn yn nwylo Llywodraeth y DU.

*“Gall tlodi wedi’i fesur ar lefel aelwyd (h.y. fel grŵp, yn hytrach nag fel unigolyn) effeithio'n negyddol ar sut mae tlodi plant yn cael ei fesur wrth ystyried aelwyd gyfan sydd â nodweddion cymysg. Er*

*enghraifft, gall gwahanol bobl oddi mewn i aelwydydd fod ag anghenion gwahanol. Efallai y bydd plant, pobl anabl, pobl oedrannus, neu oedolion lluosog o dan yr un to."*

(Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru)

## Cymorth Costau Byw

Yn yr un modd, roedd cymorth costau byw yn awgrym arall gan dri ymatebydd. Roedd yr ymatebwyr hyn yn ystyried bod yr argyfwng costau byw presennol yn un o'r bygythiadau mwyaf i gyflawni'r garreg filltir genedlaethol — lleihau amddifadedd materol.

### GDHI cydradd â gweddill y DU

Awgrymodd pedwar ymatebydd y dylid rhoi mwy o ffocws ar sicrhau GDHI sy'n gydradd â'r DU gyfan (yn hytrach na chodi'r cyfartaledd yn unig). Teimlodd yr ymatebwyr hyn fod Cymru y tu ôl i weddill y DU yn hyn o beth ac, felly, y dylai Llywodraeth Cymru ymdrechu i fynd i'r afael â hyn yn benodol.

> *"Dylid ymdrechu i wella GDHI y pen yng Nghymru, gan fod y ffaith bod cyfartaledd Cymru yn gyson is na chyfartaledd y DU yn dangos bod problem strwythurol y mae angen mynd i'r afael â hi."*
>
> (Aelod o'r cyhoedd)

### Awgrymiadau ychwanegol

Dywedodd dau ymatebydd y byddai gosod targed gofynnol ar gyfer GDHI yn fwy buddiol nag archwilio cyfartaleddau Cymru gyfan, gan eu bod yn teimlo y gallai cynnydd tuag at hyn gael ei ystumio gan gynnydd mewn GDHI ymhlith y rhai sy'n ennill y cyflogau uchaf a'r rhai canol, sy'n golygu efallai na fydd cynnydd mewn ffigurau GDHI cyfartalog o reidrwydd yn cynrychioli cynnydd ar gyfer y rhai sy'n ennill y cyflogau isaf. Ystyriaeth arall a gyflwynwyd oedd yr angen i archwilio sut mae cyfoeth wedi'i ddosbarthu'n ddaearyddol ledled Cymru, gyda rhai'n crybwyll yr hoffent weld dadansoddiadau o gynnydd tuag at y garreg filltir genedlaethol hon fesul ardal. Yn olaf, fel yn achos cerrig milltir cenedlaethol eraill, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch yr amserlen ar gyfer cyflawni'r garreg filltir genedlaethol hon, a chredent fod angen dyddiad cyflawni byrrach.

## 6.3 Safbwyntiau Rhanddeiliaid Allweddol

Roedd y rhanddeiliaid i raddau helaeth yn gefnogol i'r garreg filltir genedlaethol. Roedd cryn amrywiaeth mewn safbwyntiau o ran sut y gellid cryfhau'r garreg filltir genedlaethol. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd bod y rhanddeiliaid yn credu y dylid cael system dreth a budd-daliadau decach. Mynegodd rhai bryderon ynghylch y dangosydd sylfaenol, gan gredu y gall defnyddio incwm aelwydydd fel mesur guddio gwir lefel tlodi, gan gynnwys tlodi plant.

# 7 Tlodi Incwm

## Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ar y garreg filltir genedlaethol arfaethedig a osodwyd yn erbyn dangosydd llesiant cenedlaethol Rhif 18 — 'Lleihau'r bwlch tlodi rhwng pobl yng Nghymru sydd â nodweddion allweddol a gwarchodedig penodol (sy'n golygu mai hwy sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi) a'r rhai heb y nodweddion hynny, erbyn 2035.' Ymrwymo i osod targed ymestynnol ar gyfer 2050. '


| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Rhif 18: Tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU** | | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| **Carreg Filltir #5** | Lleihau'r bwlch tlodi rhwng pobl yng Nghymru sydd â nodweddion allweddol a gwarchodedig penodol (sy'n golygu mai hwy sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi) a'r rhai heb y nodweddion hynny, erbyn 2035. Ymrwymo i osod targed ymestynnol ar gyfer 2050. | | | | | | | |

Caiff y garreg filltir genedlaethol hon ei hystyried yn gam hanfodol wrth weithio tuag at 'Gymru Fwy Cyfartal'. Caiff ei hatgyfnerthu gan amrywiaeth o ddeddfwriaeth sy'n gosod dyletswydd statudol ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau, gan gynnwys Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020–2024 a chychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Fel yn achos carreg filltir genedlaethol 4, nodir yn y ddogfen ymgynghori bod gallu Llywodraeth Cymru i gefnogi cynnydd tuag at y garreg filltir genedlaethol hon yn cael ei effeithio gan ei diffyg rheolaeth dros y system dreth a lles yn ogystal â chyflogau'r sector preifat.

## 7.1 Canfyddiadau Cyffredinol

Unwaith eto, roedd cefnogaeth gref i fwriad a ffocws y garreg filltir genedlaethol. At ei gilydd, roedd 82 y cant o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol a awgrymwyd.

**Ffigur 7: Canfyddiadau cyffredinol o garreg filltir genedlaethol 5**




C5: N = 73, nifer heb ymateb N = 16.

Mewn ymatebion mwy agored, roedd 37 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno’n ddiamod â'r cynigion, gyda 30 y cant yn cynnig sylwadau neu awgrymiadau pellach.

## 7.2 Themâu Allweddol

Fel yn achos y garreg filltir genedlaethol flaenorol ynghylch incwm aelwydydd (carreg filltir 4), roedd llai o gonsensws rhwng ymatebwyr o ran sut y gellid cryfhau'r cynigion.

### Cymorth i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig

Dywedodd wyth o ymatebwyr eu bod yn gwerthfawrogi'r ffocws ar rai nodweddion allweddol a gwarchodedig ac roedd ganddynt ddiddordeb yn y mathau o gymorth ychwanegol a allai fod ar gael i'r grwpiau hyn er mwyn helpu i fynd i'r afael â thlodi incwm. Yn ogystal, roedd rhai'n teimlo y gellid gwneud mwy i gefnogi'r rheini sydd â nodweddion allweddol a gwarchodedig yng Nghymru yn gyffredinol.

*"Mae pobl ddall a rhannol ddall yn fwy tebygol o fyw ar aelwyd incwm isel, gyda dim ond un o bob pedwar o bobl ddall a rhannol ddall o oedran gweithio mewn cyflogaeth. Yn yr un modd, mae bywyd yn costio mwy os ydych chi'n anabl. Mae'r elusen ban-anabledd Scope yn amcangyfrif bod costau ychwanegol anabledd ar gyfartaledd yn £583 y mis ar gyfer person anabl sengl, a gall un o bob pump o bobl anabl wynebu costau ychwanegol o hyd at £1,000 y mis, hyd yn oed ar ôl ystyried budd-daliadau anabledd."*

(Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall)

## Argyfwng costau byw a thlodi tanwydd

Fel yn achos incwm aelwydydd, cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at gostau byw (N=5) yn ogystal â thlodi tanwydd (N=4) fel pryderon allweddol a oedd yn debygol o waethygu tlodi ac sydd o bosibl yn creu rhwystrau i gyflawni'r garreg filltir genedlaethol. Roedd gan ymatebwyr ddiddordeb yn yr hyn a fyddai'n cael ei wneud i oresgyn yr heriau hyn er mwyn gallu gwneud cynnydd.

*"Ar adeg pan fo rhent a biliau'n defnyddio'r rhan fwyaf, os nad y cyfan, o gyllideb gyfyngedig person hŷn, yn aml mae aberthau'n cael eu gwneud mewn meysydd eraill sy'n* [effeithio] *yn negyddol ar ansawdd eu bywyd yn gyffredinol. Gyda phobl ar y cyrion a'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig yn llai tebygol yn ystadegol o fod mewn cyflogaeth barhaol, sefydlog yn eu bywyd gwaith, bydd hyn yn cael effaith ganlyniadol ar eu pensiynau a'u cyllidebau yn ddiweddarach mewn bywyd, gyda llawer o bobl o gymunedau ymylol a'r rhai â nodweddion gwarchodedig heb fod yn barod yn ariannol ar gyfer y costau cynyddol, heb unrhyw fai arnynt hwy."*

(Gofal a Thrwsio Cymru gan aelod o'r cyhoedd)

## Ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar dlodi incwm

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at allu cyfyngedig Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael yn llawn â rhai o achosion sylfaenol tlodi incwm yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys gallu Llywodraeth Cymru i lunio lefelau trethiant a budd-daliadau, yn ogystal â'r rôl bwysig sydd gan y sector preifat o ran pennu cyflogau.

*"Nid oes gan Lywodraeth Cymru yr ysgogiadau polisi a chyllidol sylfaenol a fyddai'n galluogi'r newid sydd ei angen i sicrhau gostyngiad sylweddol mewn lefelau tlodi yng Nghymru, ond y mae'n rheoli mwyafrif helaeth o wasanaethau cyhoeddus yn y wlad hon a dylai edrych ar wledydd datganoledig eraill i gael ysbrydoliaeth."*

(Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru)

### Awgrymiadau ychwanegol

Roedd rhai o'r materion eraill a godwyd yn cynnwys mwy o eglurder ynghylch yr hyn a fyddai'n cael ei gynnwys mewn nodweddion targed. Awgrymodd un ymatebydd bod angen mynd y tu hwnt i fynd i'r afael â thlodi incwm ac edrych ar fynd i'r afael â'r materion ehangach, gan gynnwys addysg a hyfforddiant, yn ogystal â ffactorau cymdeithasol ehangach a allai effeithio ar ymdrechion Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus i gyrraedd y garreg filltir genedlaethol hon.

## 7.3 Safbwyntiau Rhanddeiliaid Allweddol

Roedd y rhanddeiliaid i raddau helaeth yn gefnogol i'r garreg filltir genedlaethol hon. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd bod rhanddeiliaid yn credu ei bod yn bwysig cynorthwyo'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft, credai Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) ei bod yn hanfodol nodi ffactorau allweddol a oedd yn cynyddu tebygolrwydd rhywun o fyw mewn tlodi, a bod pobl ddall neu rannol ddall mewn mwy o berygl o fyw mewn cartrefi incwm isel. Ymatebodd rhanddeiliaid eraill fel Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru a Home Start hefyd ei bod yn bwysig cynorthwyo'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig.

Rhai o'r safbwyntiau mwyaf cyffredin eraill a gododd mewn perthynas â'r garreg filltir genedlaethol hon oedd yr argyfwng costau byw, tlodi tanwydd, a'r angen i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thlodi. Cyfeiriodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru at y dirywiad economaidd presennol a'r effaith y bydd yr argyfwng costau byw yn ei chael ar y dangosydd llesiant cenedlaethol sylfaenol. Roedd yr RNIB, yr NSPCC, a Home Start oll yn cytuno bod angen mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thlodi, gan fod hyn yn cael effeithiau andwyol ar rannau eraill o fywydau pobl a phlant.

---

*“Gofynnwn fod y strategaeth tlodi plant arfaethedig yn cydnabod y cysylltiad rhwng diogelu a cham-drin ac esgeulustod ac yn tynnu sylw at y ffaith bod tlodi yn niwed strwythurol sy'n effeithio'n anochel ar y teulu cyfan. Os yw rhieni'n cael trafferth talu biliau a darparu bwyd, a/neu'n profi anawsterau iechyd meddwl, mae'n amlwg y gallant gael eu llethu a gallai hyn effeithio ar eu gallu i ddiwallu anghenion eu plant.”*

(Home Start)

---

# 8 Pobl sy'n Gwirfoddoli

## Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ar y garreg filltir genedlaethol arfaethedig a osodwyd yn erbyn dangosydd llesiant cenedlaethol Rhif 28 — 'cynyddu canran y bobl sy'n gwirfoddoli 10% erbyn 2050, gan ddangos statws Cymru fel cenedl sy’n gwirfoddoli'.


| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Rhif 28: Canran y bobl sy’n gwirfoddoli** | | | | | ● | ● | ● |
| **Carreg Filltir #6** | Cynyddu canran y bobl sy’n gwirfoddoli 10% erbyn 2050, gan ddangos statws Cymru fel cenedl sy’n gwirfoddoli | | | | | | |

Dewiswyd y garreg filltir genedlaethol benodol hon dros fesurau eraill a ystyriwyd, fel nifer yr oriau o wirfoddoli, oherwydd teimlwyd y byddai'n haws cymharu ffigurau'r metrig hwn dros amser. Rhagwelwyd y gellid diweddaru'r garreg filltir genedlaethol yn y dyfodol i gynnwys oriau o wirfoddoli hefyd, unwaith y gall hyn gael ei gipio’n fwy dibynadwy a chywir.

## 8.1 Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd canfyddiadau o'r garreg filltir genedlaethol hon hefyd yn gadarnhaol, gyda 63 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Fodd bynnag, o'r holl gerrig milltir cenedlaethol a gyflwynwyd yn y cynigion, hon a dderbyniodd y lefel isaf o gytundeb.

**Ffigur 8: Canfyddiadau cyffredinol o garreg filltir genedlaethol 6**




C6: N = 72, nifer heb ymateb N = 17.

Mewn ymatebion agored, roedd 25 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno’n amodol â'r cynigion. Roedd 26 y cant arall yn cynnig sylwadau neu awgrymiadau ychwanegol.

## 8.2 Canfyddiadau Allweddol

### Annog gwirfoddolwyr anhraddodiadol

Awgrymodd wyth o ymatebwyr y dylai fod ffocws yn y garreg filltir genedlaethol hon ar ymgysylltu â phobl o gefndiroedd gwirfoddoli 'anhraddodiadol'. Roedd y rhain yn cynnwys pobl iau yn ogystal â'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig (fel unigolion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol).

> *“Hoffem weld cydnabyddiaeth bendant y bydd eu targed yn berthnasol i bawb a all wirfoddoli, gan adrodd ar y cynnydd mewn gwirfoddoli a wneir yn ôl gwahanol oedrannau, ethnigrwydd a nodweddion gwarchodedig eraill* [...] *Dylai Llywodraeth Cymru fod yn ceisio cynyddu nifer a chapasiti gwirfoddoli ar draws pob demograffeg yng Nghymru — nid cymryd cyfleoedd gwirfoddoli oddi wrth bobl hŷn a allai fod yn dibynnu arnynt am sawl rheswm, ond creu cyfleoedd sy'n apelio at bawb.”*
>
> (Kingspan Insulation)

### Gwaredu rhwystrau i wirfoddoli

Awgrymodd pum ymatebydd y dylid canolbwyntio hefyd ar waredu rhwystrau i wirfoddoli. Cyflwynodd ymatebwyr ystod amrywiol o awgrymiadau, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus â chymhorthdal, gofal plant â chymhorthdal, a rolau hygyrch i bobl ag anableddau. Byddai cyflwyno'r mesurau hyn yn helpu rhai i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hwynebu er mwyn gwirfoddoli.

> *“Er ein bod yn cytuno â'r garreg filltir arfaethedig, nid ydym yn credu y bydd y cwestiwn sy'n cael ei ofyn yn dal y rhwystrau* [y mae] *pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli, yn ogystal â'r rhesymau* [pam] *mae pobl yn penderfynu peidio â gwirfoddoli. Heb wir ddeall y rhwystrau* [y mae] *pobl yn eu hwynebu, bydd yn anodd sicrhau bod cyfleoedd yn gynhwysol.”*
>
> (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall)

### Mesur yn ôl oriau gwirfoddoli

Awgrymodd pedwar ymatebydd mai mesur mwy priodol oedd oriau gwirfoddoli a bod gwirfoddoli yn ddewis personol na ddylai unigolion deimlo gorfodaeth i'w wneud. At hynny, awgrymwyd y gallai fod yn fwy effeithiol argyhoeddi gwirfoddolwyr presennol i roi mwy o'u hamser na chael pobl newydd i wirfoddoli yn y lle cyntaf. Teimlai rhai hefyd fod gwirfoddoli eisoes yn gymharol uchel a bod “terfyn uchaf naturiol” i niferoedd gwirfoddoli a oedd yn cael ei lunio gan ffactorau allanol.

> *“Bydd rhai unigolion nad ydynt yn gallu gwirfoddoli eu hamser am wahanol resymau, a charfannau penodol sydd efallai'n gallu gwirfoddoli nifer sylweddol uwch o oriau nag eraill. Cydnabuwyd bod problemau yn y mesuriad o ddefnyddio nifer yr oriau a wirfoddolwyd yn unig, fel yr eglurwyd; fodd bynnag, efallai y byddai'n fwy buddiol ymgorffori'r ddwy set o ddata yn y mesuriad.”*
>
> (Aelod o'r cyhoedd)

### Awgrymiadau ychwanegol

Roedd mater arall a godwyd yn ymwneud â dibyniaeth gynyddol ar wirfoddolwyr i ddatrys materion y dylid yn hytrach eu cefnogi gan wasanaethau statudol. At hynny, roedd cais am fwy o eglurhad ynghylch diffinio gwirfoddoli a sut (os o gwbl) y bydd gwahaniaethau rhwng gwahanol lefelau o wirfoddoli yn cael eu hystyried.

## 8.3 Safbwyntiau Rhanddeiliaid Allweddol

Roedd rhanddeiliaid allweddol fel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cytuno â'r garreg filltir genedlaethol gan hefyd dynnu sylw at feysydd lle gallai’r cynigion gael eu cryfhau. Roeddent yn awgrymu bod heriau wrth gasglu data ystyrlon i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y garreg filltir hon. Yn fwy na hynny, gwnaethant amlinellu rhwystrau posibl i gyflawni uchelgais y garreg filltir genedlaethol, fel yr argyfwng costau byw, a allai leihau nifer y bobl a all gymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli.

Soniodd rhanddeiliaid fel Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru hefyd am sut y gellid cynorthwyo’r gwaith o gyflawni'r garreg filltir genedlaethol hon. Roeddent yn credu y dylid gwella seilwaith a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn gwella hygyrchedd i wirfoddoli. Yn ogystal, soniodd rhanddeiliaid fel yr RNIB, Chwaraeon Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru am yr angen i ddileu'r rhwystrau i wirfoddoli ar gyfer unigolion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Y sylw terfynol gan nifer o randdeiliaid oedd yr angen am ddiffiniad cliriach o wirfoddoli. Tynnodd Cyngor Sir Powys sylw at y ffaith bod yna bobl mewn cymunedau sy'n gwneud gwaith gwirfoddol anffurfiol yn y gymdogaeth. Fodd bynnag, efallai na fyddant yn ystyried eu hunain yn wirfoddolwyr, gan eu bod yn aml yn meddwl bod label gwirfoddoli'n berthnasol yn unig i'r rhai sy'n rhoi o'u hamser yn rheolaidd i elusennau neu grwpiau cymunedol. Cefnogwyd yr angen am ddiffiniad cliriach o wirfoddoli gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cyngor Sir Powys, Chwaraeon Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru.

---

*"Mae'n bwysig nodi mai darlun anghyflawn yn unig fyddai'n cael ei gyflwyno gan unrhyw ddata sy'n cael ei gasglu cyhyd â bod 'gwirfoddoli' yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Mae ffurfiau anffurfiol, cymdogol o wirfoddoli, fel llawer o'r gweithgareddau a welwyd gennym yn ystod y pandemig, yn aml heb eu hadrodd, gan y byddai unigolion yn aml yn meddwl bod label gwirfoddoli'n berthnasol yn unig i'r rhai sy'n rhoi o'u hamser yn rheolaidd i elusen gofrestredig neu grŵp cymunedol. Hyd yn oed wedyn, mae cymunedau ffydd yn cynrychioli grwpiau cyfundrefnol sy'n aml yn dibynnu'n fawr ar weithredu gwirfoddol; fodd bynnag, byddai'r unigolion sy'n rhoi o'u hamser yn disgrifio eu rhan fel 'gweinidogaeth' neu 'ufudd-dod i Dduw', yn hytrach na gwirfoddoli, ac yn debygol o beidio ag* [ystyried eu hunain] *yn wirfoddolwr mewn arolwg."*

(Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)

---

# 9 Perfformiad Ynni Cartrefi

## Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ar y garreg filltir genedlaethol arfaethedig a osodwyd yn erbyn dangosydd llesiant cenedlaethol Rhif 33 — 'Bydd perfformiad ynni pob cartref yng Nghymru yn ddigonol ac yn gost-effeithiol erbyn 2050'.


| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Rhif 33: Canran yr anheddau â pherfformiad ynni digonol** | ● | ● | ● | | | | ● |
| **Carreg Filltir #7** | Bydd perfformiad ynni pob cartref yng Nghymru yn ddigonol ac yn gost-effeithiol erbyn 2050 | | | | | | |

Mae'r rhesymeg y tu ôl i'r garreg filltir genedlaethol hon yn ddeublyg: yn gyntaf, mae'n ceisio cynorthwyo pobl Cymru i reoli costau gwresogi eu cartrefi, yn ogystal â helpu i gyflawni ymrwymiad cyfreithiol Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei thargedau carbon sero-net.

## 9.1 Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r garreg filltir genedlaethol arfaethedig, gyda 75 y cant o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn ymateb yn gadarnhaol.

**Ffigur 9: Canfyddiadau cyffredinol o garreg filltir genedlaethol 7**




C7: N = 71, nifer heb ymateb N = 18.

Mewn ymatebion agored, roedd 30 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno’n ddiamod â'r cynigion, tra bod 29 y cant yn cynnig sylwadau neu awgrymiadau pellach.

## 9.2 Themâu Allweddol

### Tlodi tanwydd

Fel yr amlygwyd, roedd tlodi tanwydd yn bryder allweddol i ddeuddeg o ymatebwyr. Roedd sicrhau bod gan bob cartref berfformiad ynni digonol felly yn bwysig iawn:

*“Credwn fod y sefyllfa tlodi tanwydd, mewn gwirionedd, yn sylweddol fwy niweidiol na'r sefyllfa sy’n cael ei chynrychioli yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cynnydd mewn costau ynni yn creu sefyllfa lle bydd angen i bobl nad ydynt erioed wedi bod yn agos at y llinell dlodi o'r blaen ddewis rhwng bwyd a thanwydd. I'r rhai sydd eisoes mewn tlodi, mae'r goblygiadau iechyd yn sylweddol.”*

(Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru)

### Amserlenni byrrach

Roedd pwysigrwydd y materion hyn i rai yn cyfiawnhau gweithredu ar fwy o frys. Awgrymodd chwe ymatebydd fod 2050 yn amserlen rhy hir, ac awgrymodd rhai o'r rhain hefyd y byddai targed interim yn bwysig o ran sicrhau cynnydd amserol. Yn ogystal, teimlwyd ei bod yn bwysig lliniaru'r pwysau ariannol sy’n cael ei achosi gan aneffeithlonrwydd ynni ar y rhai sy'n ei chael yn anodd talu biliau. At hynny, roedd pryderon amgylcheddol, gan gynnwys yr angen i leihau ôl troed carbon gwresogi cartrefi yng Nghymru, yn ogystal ag ystyried sicrhau diogelwch pobl sydd mewn mwy o berygl yn ystod misoedd y gaeaf.

### Yr angen am ddiffiniadau cliriach

Gofynnodd saith ymatebydd am eglurder ynghylch diffiniadau 'digonol' a 'chost-effeithiol' yn ogystal â rhagor o wybodaeth am sut y bydd cynnydd tuag at gyflawni'r nodau hyn yn cael ei fesur.

*“Rydym yn cydnabod bod cyfyngiadau clir mewn perthynas â'r garreg filltir hon, o ystyried ei bod yn weddol gyffredinol ac yn agored i'w dehongli, heb fod ‘digonol’ na ‘chost-effeithiol’ wedi’u diffinio. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gwaith ar y gweill ar draws Llywodraeth Cymru i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi, gan gynnwys y rheini sydd â phlant, ac roeddem yn falch o gyfrannu ymateb i'r ymgynghoriad diweddar ar y Rhaglen Cartrefi Clyd yn gynharach eleni.”*

(Plant yng Nghymru)

## Eglurhad ar ôl-osod

Roedd deg ymateb yn gofyn am eglurhad pellach ynghylch sut y byddai'r garreg filltir genedlaethol yn cael ei chyflawni'n benodol ar gyfer eiddo hŷn a fyddai'n debygol o fod angen elfen o ôl-osod er mwyn gwella eu heffeithlonrwydd ynni. Teimlai rhai y gallai hyn fod yn afresymol o ddrud i rai, a theimlwyd, heb gymorth ychwanegol, y byddai'r rhai sy'n byw mewn eiddo hŷn yn llai tebygol o elwa ar unrhyw welliannau i effeithlonrwydd ynni cyffredinol cartrefi ledled Cymru.

*“Credwn ei bod yn bwysig bod yn rhaid i gamau arfaethedig Llywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio cartrefi ystyried sut y gall aelwydydd sy’n dlawd o ran tanwydd gael eu cynorthwyo i liniaru unrhyw risgiau y gallai datgarboneiddio eu cyflwyno i aelwydydd incwm isel ac agored i niwed, e.e. a fydd y grantiau sydd ar gael yn ddigon i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â'r newid arfaethedig o foeleri nwy i bympiau gwres carbon isel ar gyfer perchnogion tai yng Nghymru. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb i sicrhau nad yw aelwydydd incwm isel ac agored i niwed yn cael eu heffeithio'n anghymesur yn ariannol gan gamau i ddatgarboneiddio'r stoc dai bresennol, er mwyn sicrhau trosglwyddiad teg i ddefnyddwyr wrth symud tuag at sero net.”*

(Age Cymru)

## Awgrymiadau ychwanegol

Roedd y materion allweddol eraill a gyflwynwyd gan ymatebwyr o ran y garreg filltir genedlaethol hon yn cynnwys: ystyriaethau ar gyfer busnesau fel rhan o'r garreg filltir hon, h.y. a fyddai cymorth ar gael; rhoi ystyriaeth i dargedu eiddo nad ydynt yn briodol i’w hinswleiddio; a'r angen i flaenoriaethu'r defnydd o ffynonellau ynni gwyrddach ar gyfer cartrefi.

## 9.3 Safbwyntiau Rhanddeiliaid Allweddol

Y pryder mwyaf cyffredin oedd tlodi tanwydd a'r angen i weithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng tlodi tanwydd. Cyfeiriodd sawl rhanddeiliad, gan gynnwys Liquid Gas UK a Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru, at dlodi tanwydd a bod angen gweithredu.

Roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn credu bod ôl-osod cartrefi er mwyn eu gwneud yn fwy effeithlon yn hanfodol yn y tymor agos. Cytunodd rhanddeiliaid eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Tref Llangollen hefyd fod angen gweithredu cyn gynted â phosibl. Soniodd rhai rhanddeiliaid hefyd am yr angen i fwy o'r ynni a ddefnyddir yn yr eiddo effeithlon hyn fod yn ynni gwyrddach, gan gredu bod angen i dai yng Nghymru fod yn fwy effeithlon o ran ynni.

---

*“Y garreg filltir yw 'Bydd perfformiad ynni pob cartref yng Nghymru yn ddigonol ac yn gost-effeithiol erbyn 2050', ond nid yw hyn yn gosod targed i ddatgarboneiddio'r cyflenwad ynni. Dylid ychwanegu targed i symud i ffwrdd o ddefnyddio tanwydd ffosil i gynhesu a chyflenwi ynni i gartrefi.”*

(Cyngor Gwynedd)

---

# 10 Amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru

## Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ar y garreg filltir genedlaethol arfaethedig a osodwyd yn erbyn dangosydd llesiant cenedlaethol Rhif 44 — 'Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth gyda gwelliant yn statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad yn amlwg erbyn 2050'.


| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd Rhif 44: Statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru** | ● | ● | | | ● | ● | ● |
| **Carreg Filltir #8** | Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth gyda gwelliant yn statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad yn amlwg erbyn 2050 | | | | | | |

Mae'r garreg filltir genedlaethol yn ymwneud yn uniongyrchol â Chynllun Gweithredu Adfer Natur Gweinidog Cymru, sy'n nodi uchelgais Llywodraeth Cymru i wrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth.

## 10.1 Canfyddiadau Cyffredinol

Fel yn achos y cerrig milltir cenedlaethol eraill, roedd cefnogaeth eang i hyn, gyda 79 y cant yn cytuno â'r targed arfaethedig.

**Ffigur 10: Canfyddiadau cyffredinol o garreg filltir genedlaethol 8**




C8: N = 67, nifer heb ymateb N = 22.

Mewn ymatebion agored, roedd 35 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno’n ddiamod â'r cynigion, gyda 25 y cant yn cynnig sylwadau neu awgrymiadau pellach.

## 10.2 Themâu Allweddol

### Eglurhad ar y garreg filltir

Teimlai rhai y byddai mwy o eglurhad ar sut y cafodd y garreg filltir genedlaethol ei llunio yn werthfawr, gyda deuddeg o ymatebwyr yn ansicr ynghylch beth yn union oedd y mesur yn ei gynnwys. Teimlwyd ei bod yn bwysig egluro ac o bosibl ymestyn y garreg filltir genedlaethol i benderfynu a oedd y dirywiad mewn bioamrywiaeth wedi'i wrthdroi, yn ogystal â sut y byddai gwrthdroi yn cael ei ddiffinio.

*“Fel ecolegydd, byddwn yn argymell ychwanegu nodau mwy penodol at y garreg filltir hon. Mae 'gwrthdroi dirywiad' a 'gwella'r statws' ill dau yn dargedau gwych, ond byddai cael canran o rywogaethau/ecosystemau wedi'u gwella neu rywbeth tebyg yn gwneud y garreg filltir hon yn llawer mwy ystyrlon. Mae targedau mesuradwy bob amser yn fwy gwerthfawr na rhai annelwig.”*

(Aelod o'r cyhoedd)

### Blaenoriaethu rhywogaethau cynhenid

O ran y garreg filltir genedlaethol ynghylch gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, roedd rhai ymatebwyr yn credu y dylid blaenoriaethu rhywogaethau cynhenid, neu o leiaf y dylai fod ystyriaeth benodol ar eu cyfer. Roedd hyn oherwydd pryderon bod rhywogaethau sy'n unigryw neu'n frodorol i Gymru a fyddai mewn mwy o berygl o golli bioamrywiaeth nag y byddai rhywogaethau eraill sydd i’w canfod mewn mannau eraill.

### Amserlenni byrrach

Fel yn achos rhai cerrig milltir cenedlaethol eraill, teimlai saith ymatebydd y gellid rhoi amserlen fyrrach ar waith. Roedd hyn oherwydd materion posibl fel bod colli bioamrywiaeth yn mynd yn anoddach i’w atal ac yn ddrytach i'w gywiro dros amser, yn ogystal â’r effaith negyddol bosibl y gallai atebion ei chael ar faterion eraill.

### Sefydlu llinell sylfaen

Mynegwyd rhai pryderon hefyd ynghylch sefydlu llinell sylfaen gywir. Roedd yr ymatebwyr eisiau eglurhad ynghylch sut mae'r mesuriadau hyn wedi'u cynnal o'r blaen.

*“Dylai'r garreg filltir ei gwneud yn glir pa linell sylfaen sy'n cael ei defnyddio (1970 os ydych yn defnyddio'r dangosydd arfaethedig) a'i chyfyngiadau o ran lefelau amrywio/tuedd. Pan fydd dangosydd yn cael ei fesur o setiau data'r NSS, bydd asesiad yn cael ei ddylanwadu gan faint o ddata a pha ddata a gofnodwyd dros y degawdau. Dylai dangosyddion a ddefnyddir i asesu adferiad natur gynnwys tacsa ar draws dŵr croyw, ecosystemau morol a daearol a mesur helaethrwydd, dosbarthiad a chyflwr cynefinoedd.”*

(Aelod o'r cyhoedd)

## 10.3 Safbwyntiau Rhanddeiliaid Allweddol

Y prif ymateb gan randdeiliaid oedd bod angen carreg filltir genedlaethol fwy mesuradwy. Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod geiriad y garreg filltir genedlaethol yn rhy eang ac y dylid ei egluro, a chefnogwyd hyn gan randdeiliaid allweddol eraill fel yr RSPB a Chyswllt Amgylchedd Cymru.

Roedd y tri rhanddeiliad allweddol hyn hefyd yn credu ei bod yn bwysig annog rhywogaethau brodorol i ddychwelyd er mwyn gwella statws ehangach amrywiaeth fiolegol yng Nghymru. Cytunodd Cyfoeth Naturiol Cymru y dylid cael targedau interim clir bob deng mlynedd. Cytunodd yr RSPB y dylid cael amserlenni byrrach a bod angen i ni ddechrau gwrthdroi colled bioamrywiaeth erbyn 2030 a chael adferiad llawn erbyn 2050 er mwyn cyrraedd Nod Byd-eang Nature Positive sydd i’w fabwysiadu yn uwchgynhadledd COP 15 ym mis Rhagfyr 2022.

*“Bydd y data sydd i'w ddefnyddio ar gyfer adrodd ar y garreg filltir yn cael ei ddylanwadu gan y rhywogaethau/grwpiau rhywogaethau y mae gennym ddata monitro digonol ar eu cyfer. Nid oes gennym ddata ar gyfer llawer o rywogaethau adran 7. Yn ogystal, mae disgwyl i restr rhywogaethau adran 7 gael ei diweddaru ac mae hyn yn debygol o newid effaith adrodd pe bai'r rhywogaethau’n newid, neu nifer y rhywogaethau'n newid: rhywogaethau y gallai fod gennym ddata ar eu cyfer neu beidio. Gall hyn fod yn her o ran diffinio'r llwybr hirdymor at adferiad. Os mai'r bwriad yw gosod targed penodol, byddem yn annog targedau interim clir ar gyfer 2030, 2040, ac yna 2050 wedi eu mesur yn erbyn pa llinell sylfaen. A fyddai 2020 yn lefel synhwyrol a chyraeddadwy i fesur yn ei herbyn?”*

(Cyfoeth Naturiol Cymru)

# 11 Cyfathrebu'r Cerrig Milltir Cenedlaethol

## Gofynnwyd i'r ymatebwyr wneud sylwadau ar sut y dylai Llywodraeth Cymru gyfathrebu â phobl a chymunedau ynghylch y cerrig milltir cenedlaethol.

Roedd y cwestiwn hwn yn ceisio canfod pa sianeli yr oedd ymatebwyr yn teimlo fyddai'n fwyaf priodol ar gyfer cyfathrebu'r cerrig milltir cenedlaethol. Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r ymatebion a'r sylwadau allweddol a ddaeth i law mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

### Cyfryngau cyfathrebu

Roedd safbwyntiau cymysg tuag at flaenoriaethu cyfathrebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, Instagram, Twitter) a nodwyd gan 19 o ymatebwyr neu gyfryngau mwy traddodiadol (e.e. teledu, papurau newydd, radio) a awgrymwyd gan 13.

Roedd yr ymatebwyr hynny a awgrymodd flaenoriaethu'r cyfryngau cymdeithasol yn nodi rhesymau fel eu bod yn cael eu defnyddio'n fwy cyffredin ar draws demograffeg amrywiol, a chyda nodweddion fel sylwadau, ei bod yn haws derbyn adborth yn ogystal â chyfeirio at wybodaeth ac mai dyma'r cyfrwng mwyaf priodol er mwyn ymgysylltu â phobl iau.

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bwysigrwydd cyfryngau mwy traddodiadol er mwyn cyrraedd rhai cymunedau, yn ogystal â'r risg bosibl y gallai platfformau digidol eithrio unigolion sydd â llythrennedd digidol is neu sy'n profi tlodi digidol. Yn fwy na hynny, awgrymwyd y byddai dulliau lledaenu ffisegol yn fwy gweladwy i'r cyhoedd wrth iddynt fyw eu bywydau.

*"I bobl hŷn, mae'n bwysig nad yw sianeli cyfathrebu yn 'ddigidol yn ddiofyn'. Yng Nghymru, nid oes gan 52 y cant o bobl dros 75 oed fynediad band eang, ac nid yw llawer o bobl hŷn yn defnyddio cyfrifiaduron a ffonau clyfar, felly i rai, mae technoleg ddigidol yn rhwystr mawr. Mae adborth gan bobl hŷn yn dangos eu rhwystredigaeth nad ydynt bellach yn gallu cael mynediad at wasanaethau, cyngor a chymorth drwy alwadau ffôn a gwybodaeth ar bapur a'u bod yn gorfod galw ar anwyliaid prysur i'w cynorthwyo i gael mynediad at y pethau sydd eu hangen arnynt."*

(Age Cymru)

## Pryderon hygyrchedd

Thema gyffredin arall a adroddwyd gan 10 o ymatebwyr oedd pwysigrwydd hygyrchedd i gyfathrebiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod cyfathrebiadau'n ddemocrataidd ac yn galluogi cyfranogiad llawn mewn dadleuon ynghylch y cerrig milltir cenedlaethol.

Yn fwy penodol, cyfeiriwyd at fater hygyrchedd ac y dylai cyfathrebiadau fod yn briodol ar gyfer y rhai sydd ag anableddau synhwyraidd fel colli golwg a chlyw.

Yn ogystal, roedd rhai'n teimlo bod cyfathrebu wyneb yn wyneb hefyd yn bwysig. Adroddodd nifer o ymatebwyr y gallai cael unigolion mewn cymunedau sy'n esbonio'r cerrig milltir cenedlaethol a'u pwrpas helpu pobl i ymgysylltu – pobl a allai fel arall deimlo na allant wneud sylwadau.

> *"Dylai'r cerrig milltir, a'r rhesymau y tu ôl iddynt, gael eu hesbonio mewn ffordd syml, er mwyn i bobl a chymunedau eu deall a'u cefnogi. Dylai'r dulliau cyfathrebu fod yn amrywiol, ac yn hygyrch i'r rhai sydd ag anableddau, cyflyrau niwroamrywiol, problemau clyw a golwg, ac mewn fformatau ac ieithoedd amrywiol. Dylid defnyddio amrywiaeth o offer cyfathrebu, gan gynnwys papurau newydd, cyfryngau digidol a'r cyfryngau cymdeithasol, ac mewn sawl fformat hygyrch gwahanol, e.e. posteri, ffeithluniau, graffiau, ffilmiau byr, podlediadau, ac ati, i sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl."*
>
> (Cyfoeth Naturiol Cymru)

## Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd

Pwynt arall i'w ystyried a godwyd gan saith ymatebydd oedd pwysigrwydd ymgysylltu'n weithredol ag aelodau o'r cyhoedd. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch proffil y cerrig milltir cenedlaethol a'r dangosyddion llesiant cenedlaethol a pha mor weladwy ydynt ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol. Roeddent yn teimlo y dylid gwneud mwy i fynd ati i hyrwyddo'r cerrig milltir cenedlaethol drwy eitemau newyddion, a hysbysebion ar gyfryngau cymdeithasol a theledu, yn ogystal â threfnu ymweliadau ag ysgolion.

*“Mae angen dod â'r cerrig milltir a'r dangosyddion yn fyw mewn ffordd hygyrch a deniadol, ac mewn amrywiaeth o fformatau a fydd yn apelio at gynulleidfa eang. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn cynnwys pobl a chymunedau (gan gynnwys pobl ifanc) wrth ddylunio'r cynhyrchion cyfathrebu. Gallai Llywodraeth Cymru adeiladu ar yr uchod drwy ystyried sut i fynd ymhellach na chyfathrebu â nhw,* [...] *gan gael pobl a chymunedau i ymgysylltu â nhw. Byddai'n wych gweld gwaith gyda phobl i archwilio beth mae'r cerrig milltir a'r dangosyddion yn ei olygu iddyn nhw. Pa fath o ddangosyddion cyfansawdd y gallent eu cynnig sy'n crynhoi mwy nag un dangosydd, er enghraifft?*

(Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol)

# 12 Effeithiau, Cyfleoedd a Dibyniaethau

## Wrth ystyried yr effeithiau a’r cyfleoedd posibl yn sgil cyflawni'r cerrig milltir cenedlaethol, gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ar unrhyw gysylltiadau a dibyniaethau rhyngddynt.

Dylid nodi bod llawer o'r adborth a ddarparwyd yn canolbwyntio ar y dibyniaethau rhwng y cerrig milltir cenedlaethol, gyda llai yn canolbwyntio ar effeithiau a chyfleoedd cyffredinol eu cyflawni. Roedd rhai ymatebion i'r cwestiwn hwn, yn hytrach na chyfeirio at yr effeithiau a’r cyfleoedd yn sgil cyflawni’r cerrig milltir cenedlaethol, yn cyfeirio at y dangosyddion llesiant cenedlaethol, gan gynnwys dadleuon allweddol a materion yn ymwneud â'r dangosyddion llesiant cenedlaethol. Er enghraifft, ar bwnc disgwyliad oes iach, cyfeirio at amseroedd aros ysbytai yn unig a wnaeth yr ymatebwyr mewn rhai achosion.

### Consensws cyffredinol

Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylai'r cerrig milltir cenedlaethol fod o fudd i'w gilydd. Byddai mynd i'r afael â thlodi incwm ac anghydraddoldebau ymhlith y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, er enghraifft, yn arwain at fanteision cyfatebol ar gyfer iechyd a llesiant. Yn ogystal, teimlwyd y byddai cynnydd yn erbyn y mesur hwn hefyd yn hybu amcanion strategol ehangach, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol, Cynllun Gweithredu LHDTC+, neu'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anabledd Dysgu.

### Perthnasoedd cadarnhaol

Roedd y perthnasoedd cadarnhaol a nodwyd amlaf rhwng dangosyddion a cherrig milltir yn cynnwys rhwng carreg filltir genedlaethol 4 (gwella GDHI y pen yng Nghymru) a charreg filltir genedlaethol 5 (lleihau'r bwlch tlodi rhwng pobl yng Nghymru sydd â rhai nodweddion allweddol a gwarchodedig a'r rhai sydd heb y nodweddion hynny erbyn 2035), lle awgrymwyd y byddai codi incwm y rhai sy'n wynebu rhwystrau yn gwella GDHI; a rhwng carreg filltir genedlaethol 2 (cynyddu canran yr oedolion sydd â dau neu fwy o ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw) a charreg filltir genedlaethol 3 (gwella lles meddyliol cymedrig oedolion a phlant a dileu’r bwlch yn lles meddyliol cymedrig oedolion a phlant rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru erbyn 2050), lle awgrymwyd y byddai ymgymryd ag arferion mwy iach yn fuddiol i iechyd a lles unigolion.

Awgrymwyd hefyd bod gan garreg filltir genedlaethol 2 berthynas gadarnhaol â charreg filltir genedlaethol 1 (cynyddu disgwyliad oes iach oedolion a lleihau'r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig o leiaf 15% erbyn 2050), gan ystyried bod rhai o'r ymddygiadau iach yn codi disgwyliad oes.

> *"Mae'r nod sydd wedi'i gyflwyno yng ngharreg filltir 1 (cynyddu disgwyliad oes iach oedolion a lleihau'r bwlch), i ryw raddau, yn ddibynnol ar garreg filltir 2 (cynyddu canran yr oedolion sydd â dau neu fwy o ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw). Dylai'r ddau hyn fynd law yn llaw, ac wrth i un wella, dylai'r llall wella hefyd. Nid yw'r un o'r cerrig milltir* [yn] *anghydnaws i'r graddau y byddai gwelliant mewn un ar draul un arall."*
>
> (Anhysbys)

## Perthynas negyddol

Ychydig iawn o berthnasoedd negyddol a gafwyd rhwng y cerrig milltir cenedlaethol a awgrymwyd hyd yma; fodd bynnag, nododd ymatebwyr lle maent yn teimlo y gallai'r cerrig milltir cenedlaethol gael effeithiau negyddol ar faterion ehangach sy'n wynebu Cymru. Y rhai mwyaf cyffredin o'r rhain yw pryderon ynghylch effaith carreg filltir genedlaethol 8 (gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth gyda gwelliant yn statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad clir erbyn 2050) ac i ba raddau y mae tai fforddiadwy ar gael yng Nghymru, gyda'r ymatebwyr yn awgrymu y gallai hyn gyfyngu ar ble y gellid adeiladu tai er mwyn ateb y galw.

Teimlai pobl hefyd y gallai ariannu'r prosiectau a'r polisïau angenrheidiol i gyflawni'r cerrig milltir cenedlaethol arwain at drethi uwch i dalu am hyn, a fyddai yn ei dro yn cael effaith ar GDHI, yn ogystal â bod cyllid yn cael ei ddargyfeirio oddi wrth feysydd ac agendâu eraill sydd hefyd yn hanfodol i bobl Cymru.

Awgrymwyd hefyd fod gwella effeithlonrwydd ynni eiddo (carreg filltir genedlaethol 7) yn cael effaith ar GDHI os oes disgwyl i'r cyhoedd dalu cost hyn, yn ogystal â chodi prisiau tai yn uwch na'r lefel bresennol.

# 13 Effaith ar y Gymraeg

## Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn edrych ar effeithiau posibl y cynigion ar y Gymraeg. Gofynnwyd i'r ymatebwyr am adborth ar unrhyw newidiadau a allai effeithio'n gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg.

Mae'n werth nodi bod llawer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar sut y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi'r Gymraeg yn well yn gyffredinol, yn hytrach na rôl y cerrig milltir cenedlaethol. Felly, nid oedd rhai o'r themâu ar draws yr ymatebion o reidrwydd yn gysylltiedig â'r cerrig milltir cenedlaethol.

### Barn ar yr effaith ar y Gymraeg

Nododd y rhai a fynegodd farn ar yr hyn a gredent oedd effaith y cerrig milltir cenedlaethol ar y Gymraeg nad oeddent yn ystyried bod effaith. Nodwyd y byddai ymgysylltu â phobl ynghylch y cerrig milltir cenedlaethol mewn modd dwyieithog yn helpu i gynorthwyo pobl i ddefnyddio'r iaith, tra bod eraill yn nodi nad oedd ffocws penodol ar yr iaith fel rhan o unrhyw un o'r cerrig milltir cenedlaethol; felly, ni allent ragweld unrhyw effaith fawr.

### Consensws ynghylch pwysigrwydd y Gymraeg

Mae'n werth nodi hefyd bod consensws ymhlith yr ymatebwyr ei bod yn bwysig ehangu'r Gymraeg. I'r perwyl hwn, cyflwynwyd awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwneud hyn, gan gynnwys: darparu gwersi Cymraeg am ddim i oedolion, sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn orfodol i bob disgybl mewn addysg uwchradd, a sicrhau bod lleoedd yn parhau lle gall pobl siarad Cymraeg.

> *"Mae angen mwy o lefydd, siopau galw i mewn, ac* [eraill] *y gallwch siarad Cymraeg yn rhydd ynddynt, a mwy* [o gyfryngau] *cynrychioliadol yn yr iaith frodorol, gyda mwy o gyrsiau ar gael. Mae llawer o Gymry'n teimlo embaras nad ydyn nhw wedi dysgu'r Gymraeg ddigon i fod yn hyderus i gysylltu ag eraill i sgwrsio — dylai fod ar gael yn fwy i bawb."*
>
> (Aelod o'r cyhoedd)

Mae'n werth nodi, fodd bynnag, y cafwyd cyfran o ymatebion a awgrymodd na ddylid blaenoriaethu'r Gymraeg dros gyflawni'r cerrig milltir cenedlaethol, ac y dylai hefyd arwain at driniaeth ffafriol i'r rhai sy'n siarad yn ddwyieithog, yn enwedig o ran sicrhau swyddi yn y sector cyhoeddus.

*“Rwy'n cytuno* [y dylid] *cadw'r Gymraeg yn fyw ond nid ar draul cyflogaeth. Rwy'n credu ein bod yn colli allan ar gael meddygon a nyrsys, deintyddion da, ac ati. Gan fod swyddi'r GIG a'r llywodraeth yn gofyn am siaradwyr Cymraeg a ffefrir, byddai gweld hyn yn atal llawer o bobl o'r tu allan i Gymru rhag ymgeisio. Dylai swyddi fod ar sail cymwysterau, NID iaith.”*

(Aelod o'r cyhoedd)

## Awgrymiadau o welliannau i gerrig milltir

Pan ofynnwyd iddynt sut roeddent yn teimlo y gellid llunio neu newid y cynigion i gael effeithiau cadarnhaol neu gynyddu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, nid oedd llawer o gonsensws rhwng yr ymatebion a ddarparwyd.

Y prif awgrym a ddarparwyd oedd sicrhau cydraddoldeb rhwng y ddwy iaith o ran cyfathrebiadau ysgrifenedig, yn ogystal ag ymgynghoriadau, wrth weithredu’r cerrig milltir cenedlaethol. I rai, roedd angen ystyried y Gymraeg a’r Saesneg yn gyfartal o ran statws fel nad oedd pobl yn teimlo’n fwy neu’n llai Cymreig, neu fwy neu lai o groeso o ganlyniad i'r iaith maen nhw'n ei siarad.

*“Rydym yn byw yng Nghymru. Y Gymraeg yw'r iaith genedlaethol a dylid rhoi blaenoriaeth iddi; fodd bynnag, ni ddylai Cymry nad ydynt yn siarad Cymraeg deimlo eu bod wedi'u heithrio neu'n 'llai o Gymry' oherwydd hyn. Iaith yw’r Gymraeg, set o sgiliau, ond nid cymhwyster cenedligrwydd. Rwy'n siarad Cymraeg a chefais fy magu’n ddwyieithog; fodd bynnag, ni chafodd pawb yr un fantais.”*

(Aelod o'r cyhoedd)

Roedd yr awgrymiadau eraill yn cynnwys: awgrymiadau tebyg i'r rhai yn yr adran ddiwethaf yn amlinellu'r gefnogaeth y gellid ei darparu a’i defnyddio i ehangu'r defnydd o'r iaith, galwadau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwreiddio'n fwy canolog ym mhob polisi, ac awgrymiadau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg wrth wirfoddoli.

# 14 Casgliadau

Cafodd yr holl gerrig milltir cenedlaethol dderbyniad cadarnhaol gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr. Mae hyn yn awgrymu bod consenswS eang ynghylch pwysigrwydd y materion sydd wedi’u hamlinellu yn y cynigion, yn ogystal â'r blaenoriaethau y maent yn ceisio eu datblygu. Mae hwn yn ganfyddiad tebyg i werthoedd y cerrig milltir cenedlaethol a ddatblygwyd yn nhon un ac a gyhoeddwyd yn 2021.

Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynigion yn cael ei adlewyrchu mewn cwestiynau caeedig (meintiol) a phenagored (ansoddol). Ar draws yr holl gerrig milltir cenedlaethol, er enghraifft, roedd 76.5 y cant o'r ymatebwyr ar gyfartaledd yn cytuno â'r cynigion. O fewn ymatebion agored, roedd 33.8 y cant o'r ymatebwyr ar gyfartaledd yn cynnig cefnogaeth ddiamod i’r cynigion. Roedd 28.3 y cant arall yn cynnig cefnogaeth amodol, lle'r oedd yr ymatebwyr yn nodi meysydd lle gellid cryfhau'r cynigion. Ar y llaw arall, roedd 19.1 y cant ar gyfartaledd yn mynegi teimladau negyddol tuag at elfennau o'r cynigion.

O ran sut y gellid cryfhau'r cynigion, thema gyffredinol allweddol ar draws sawl carreg filltir genedlaethol oedd uchelgais y cynigion. Ar draws ystod o gerrig milltir cenedlaethol, teimlai rhai y byddent yn elwa o dargedau mwy uchelgeisiol ac amserlenni byrrach. At hynny, roedd rhai yn argymell defnyddio targedau interim pellach i gefnogi cynnydd.

Yn gysylltiedig â hyn, thema gyffredinol arall oedd yr angen i gyflwyno targedau mesuradwy ar gyfer y mesurau hynny sydd heb rai ar hyn o bryd. Gwerthfawrogwyd y byddai hyn yn fwy syml ar gyfer rhai cerrig milltir cenedlaethol nag eraill, ond roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai cael y targedau hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i fesur cynnydd ac i'r cynnydd hwn gael ei rannu â'r cyhoedd.

Thema gyffredinol arall ar draws yr ymatebion i’r cerrig milltir cenedlaethol oedd bod ymatebwyr am weld dadansoddiadau o gynnydd yn ôl amryw ffactorau. Awgrymodd rhai gynnwys rhagor o wybodaeth am nodweddion gwarchodedig ac ardaloedd daearyddol, er enghraifft. Y rheswm am hyn yw er mwyn penderfynu a yw ymyriadau a pholisïau sy'n ymwneud â'r cerrig milltir cenedlaethol hyn yn gwasanaethu Cymru gyfan (yn hytrach na rhai elfennau demograffig neu ardaloedd).

Un mater a oedd yn gyffredin ar draws y cerrig milltir cenedlaethol oedd cydnabod bod cynnydd hefyd yn cael ei yrru gan ffactorau y tu allan i reolaeth penodol Llywodraeth Cymru, fel yr argyfwng costau byw, yr argyfwng bioamrywiaeth, a'r rhyfel yn Wcráin. Fodd bynnag, cydnabuwyd y byddai rhai o'r cerrig milltir cenedlaethol hyn yn helpu i liniaru effeithiau y rhain; felly, er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau hyn, dylai cynnydd tuag at y cerrig milltir hyn ddechrau'n fuan.

Er y sylwadau ehangach hyn ar fanylion y cerrig milltir cenedlaethol, gellir gweld yn glir bod yr ymatebion cyffredinol hyn yn adlewyrchu ymhellach bwysigrwydd y cerrig milltir i'r ymatebwyr ac, yn hytrach na bod yn sylwadau ar eu cynnwys, eu bod yn sylwadau ar sicrhau eu bod yn cael eu ceisio a'u mesur mewn ffordd sy’n ystyrlon iddynt hwy.

Er gwaethaf sylwadau fel y rhain, yn ogystal â'r rhai y cyfeiriwyd atynt ym mhenodau'r adroddiad hwn, mae'n amlwg bod cytundeb cyffredinol â theimlad a phwysigrwydd y cerrig milltir cenedlaethol hyn.

# Atodiad 1: Cwestiynau Ymgynghori

## Cwestiwn 1

a) A ydych yn cytuno â'r garreg filltir genedlaethol arfaethedig ar gyfer dangosydd Rhif 2 (h.y. disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf difreintiedig)?
b) Os gwnaethoch ateb 'ydw' ond hoffech rai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?
c) Os gwnaethoch ateb 'nac ydw', rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

## Cwestiwn 2

a) A ydych yn cytuno â'r garreg filltir genedlaethol arfaethedig ar gyfer dangosydd Rhif 3 (h.y. canran yr oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw)?
b) Os gwnaethoch ateb 'ydw' ond hoffech rai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?
c) Os gwnaethoch ateb 'nac ydw', rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

## Cwestiwn 3

a) A ydych yn cytuno â'r garreg filltir genedlaethol arfaethedig ar gyfer dangosydd Rhif 29 (h.y. sgôr lles meddyliol cymedrig)?
b) Os gwnaethoch ateb 'ydw' ond hoffech rai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?
c) Os gwnaethoch ateb 'nac ydw', rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

## Cwestiwn 4

a) A ydych yn cytuno â'r garreg filltir genedlaethol arfaethedig ar gyfer dangosydd Rhif 10 (h.y. incwm gwario gros aelwydydd y pen)?
b) Os gwnaethoch ateb 'ydw' ond hoffech rai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?
c) Os gwnaethoch ateb 'nac ydw', rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

## Cwestiwn 5

a) A ydych yn cytuno â'r garreg filltir genedlaethol arfaethedig ar gyfer dangosydd Rhif 18 (h.y. tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU)?
b) Os gwnaethoch ateb 'ydw' ond hoffech rai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?
c) Os gwnaethoch ateb 'nac ydw', rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

## Cwestiwn 6

a) A ydych yn cytuno â'r garreg filltir genedlaethol arfaethedig ar gyfer dangosydd Rhif 28 (h.y. canran y bobl sy'n gwirfoddoli)?
b) Os gwnaethoch ateb 'ydw' ond hoffech rai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?
c) Os gwnaethoch ateb 'nac ydw', rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

## Cwestiwn 7

a) A ydych yn cytuno â'r garreg filltir genedlaethol arfaethedig ar gyfer dangosydd Rhif 33 (h.y. canran yr anheddau â pherfformiad ynni digonol)?
b) Os gwnaethoch ateb 'ydw' ond hoffech rai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?
c) Os gwnaethoch ateb 'nac ydw', rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

## Cwestiwn 8

a) A ydych yn cytuno â'r garreg filltir genedlaethol arfaethedig ar gyfer dangosydd Rhif 44 (h.y. statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru)?
b) Os gwnaethoch ateb 'ydw' ond hoffech rai newidiadau, beth fyddech chi'n ei newid am y garreg filltir genedlaethol arfaethedig?
c) Os gwnaethoch ateb 'nac ydw', rhowch dystiolaeth ar gyfer carreg filltir genedlaethol fwy addas i Gymru.

## Cwestiwn 9

a) Sut ydych chi'n meddwl y dylem gyfathrebu â phobl a chymunedau Cymru ynglŷn â’r cerrig milltir cenedlaethol?

## Cwestiwn 10

a) Rydym yn awyddus i gasglu tystiolaeth am effeithiau a chyfleoedd posibl o gyflawni'r holl gerrig milltir cenedlaethol, ac yn enwedig unrhyw ddibyniaethau rhyngddynt. Er enghraifft, gallai gwneud cynnydd tuag at gyflawni un garreg filltir genedlaethol gael effaith anfwriadol ar garreg filltir genedlaethol arall, neu gyfleoedd i sicrhau manteision ehangach rhwng cerrig milltir cenedlaethol. Defnyddiwch y gofod hwn i ddarparu tystiolaeth o'r cysylltiadau a'r rhyngddibyniaethau hyn.

## Cwestiwn 11

Hoffai Llywodraeth Cymru glywed eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg,
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

a) Pa effeithiau ydych chi'n meddwl fyddai yna? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

## Cwestiwn 12

Esboniwch hefyd sut y credwch y gellid llunio neu newid y cynigion er mwyn cael:

- effeithiau cadarnhaol neu gynyddu effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg,
- dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

# Atodiad 2: Ymatebion Sefydliadol

Mae'r adran hon yn rhestru'r sefydliadau a gyfrannodd ymatebion i'r ymgynghoriad.

Age Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC)
Cymdeithas Porthladdoedd Prydain
Gofal a Thrwsio Cymru
Cyngor Sir Caerfyrddin
Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol
Plant yng Nghymru
Chwarae Teg
ClwydAlyn
Colegau Cymru
Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd
Home Start
Hwb Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Kingspan Insulation
Liquid Gas UK
Cyngor Cymuned Llanbedr
Cyngor Tref Llangollen
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Cyngor Sir Fynwy
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyngor Sir Casnewydd
NSPCC
Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Llwyfan
Cyngor Cymuned Porthsgiwed
Cyngor Sir Powys
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB)
RSPB

Iechyd a Gofal Gwledig Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Chwaraeon Cymru
Cyswllt Amgylchedd Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor Sir Ynys Môn

## Cysylltwch â ni

0330 122 8658

wavehill@wavehill.com

wavehill.com

**Dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol**

@wavehilltweets

wavehill